invasivealienspecies@defra.gov.uk

www.gov.uk/defra

Annwyl Ymgynghorai

## Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Gynlluniau Gweithredu Llwybr Drafft ar gyfer Rhywogaethau Estron Goresgynnol

Rwy'n ysgrifennu i wahodd safbwyntiau ar Gynlluniau Gweithredu Llwybr Rhywogaethau Estron Goresgynnol (INNS) sydd wedi'u datblygu gan weithgorau a sefydlwyd gan Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr ac sy’n cynnwys cynrychiolwyr o Defra, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, asiantaethau'r llywodraeth a phartneriaid cyflawni allweddol.

Mae'r pum dogfen PAP drafft yn ymdrin â’r pynciau llwybr canlynol: cychod hamdden; pysgota; garddwriaeth; sŵau; ac anifeiliaid anwes.

Mae'r rhain yn cyflwyno dulliau gweithredu arfer gorau gyda chamau gweithredu allweddol i'r Llywodraeth, asiantaethau’r llywodraeth, NGOs, clybiau hamdden ac unigolion eu cymryd er mwyn helpu i lywio adnoddau ac ymddygiad yn y cyfeiriad cywir. Mae'r camau’n cynnwys codi ymwybyddiaeth, gweithredu a gwella mesurau bioddiogelwch a hybu’r arferion gorau ymhlith grwpiau diwydiant a grwpiau defnyddwyr. Nid yw’r PAPs yn newid y ddeddfwriaeth nac yn creu beichiau neu waharddiadau.

Mae'r ymgynghoriad yn gyfle i gasglu adborth ehangach am y camau ym mhob PAP. Byddwn yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn diwygio dogfennau’r PAPs lle bo’n briodol, gyda'r nod cyffredinol o wneud y PAPs mor gynhwysfawr â phosibl. Yr ymgynghoriad hwn felly yw’r cam olaf wrth ddatblygu'r PAPs cyn eu cyhoeddi.

Mae’r dogfennau canlynol i’w gweld ar https://consult.defra.gov.uk/invasive-non-native-species-team/pathway-action-plans-for-non-native-species:

- Dogfen ymgynghori
- PAP drafft Cychod Hamdden
- PAP drafft Pysgota
- PAP drafft Garddwriaeth
- PAP drafft Sŵau
- PAP drafft Anifeiliaid Anwes

## Ymatebion

Mae hwn yn ymgynghoriad ar y cyd ar ran Defra, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban gydag ymatebion yn cael eu casglu gan Defra. I gyflwyno'ch ymateb i'r ymgynghoriad llenwch yr holiadur ymgynghori a ddarperir drwy Citizen Space (offeryn ymgynghori ar-lein yw Citizen Space): https://consult.defra.gov.uk/invasive-non-native-species-team/pathway-action-plans-for-non-native-species

Os oes arnoch angen copi papur o'r ymgynghoriad, cysylltwch â ni yn invasivealienspecies@defra.gov.uk Gellir anfon ymatebion neu wybodaeth neu ddogfennau ychwanegol at: invasivealienspecies@defra.gov.uk

neu

**INNS Consultation Coordinator**
Department for Environment, Food and Rural Affairs
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Dylid derbyn ymatebion erbyn 18 Awst 2025.

Diolch ichi am eich cymorth yn y mater hwn. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni fel uchod.

Yn gywir

Tîm Polisi Rhywogaethau Anfrodorol Ymledol

invasivealienspecies@defra.gov.uk

**Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig**